



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

29.04.19

Annwyl bennaeth

Heddiw, cyhoeddaf y deunyddiau cwricwlwm ac asesu newydd, gan ofyn am adborth arnynt. Ysgrifennaf atoch chi fel arweinwyr er mwyn gofyn am eich barn, ac i chi helpu i fireinio'r deunyddiau hyn. Hefyd, gofynnaf i chi fel arweinwyr helpu pob un o'ch staff a chymuned ehangach yr ysgol i ddefnyddio'r adnoddau newydd a rhoi eu barn.

Mae'r cam hwn yn garreg filltir bwysig yn y daith ddiwygio a amlinellir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Mae'r deunyddiau hyn wedi cael eu llunio ar ôl tair blynedd o waith datblygu helaeth gyda'r proffesiwn addysg drwy ysgolion arloesi, mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru ac amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr eraill.

Cenhadaeth ein cenedl yw gwella safonau, lleihau'r bwloch o ran cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy'n ennyn balchder a hyder y cyhoedd ledled Cymru. Mae Cwricwlwm i Gymru 2022, sydd wedi'i greu yng Nghymru ond ei lywio gan y gorau o bedwar ban byd, yn hollbwysig i gyflawni'r genhadaeth honno.

Am y tro cyntaf, bydd gan Gymru gwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiben, hynny yw pedwar diben sy'n cyfleu ein dyheadau wrth feddwl am bobl ifanc 16 oed:

- galluog ac uchelgeisiol;
- mentrus a chreadigol;
- egwyddorol a gwybodus;
- iach a hyderus.

Cynlluniwyd Cwricwlwm i Gymru 2022 i fod yn fframwaith cenedlaethol i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed er mwyn eich helpu chi fel gweithwyr proffesiynol i ddatblygu eich cwricwla lefel ysgol: cewch yr hyblygrwydd i ddarparu dysgu ac addysgu sy'n diwallu anghenion penodol eich dysgwyr yn eu cyd-destunau a'u cymunedau eu hunain.

Heddiw, awn gam ymhellach wrth gydweithio i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Dros dymor yr haf, byddwn yn ceisio barn y proffesiwn addysg yng Nghymru, yn ogystal â phlant a phobl ifanc, eu rhieni ac amrywiaeth o randdeiliaid ehangach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yna, bydd Cwricwlwm i Gymru 2022 ar ei newydd wedd ar gael ym mis Ionawr 2020, i'w ddefnyddio o fis Medi 2022 mewn ysgolion cynradd a chyda disgyblion blwyddyn 7. Yn dilyn hynny, cyflwynir y cwricwlwm newydd fesul blwyddyn mewn ysgolion uwchradd. Drwy dymor yr haf, byddwn yn ymgysylltu'n helaeth â'r proffesiwn addysgu a rhanddeiliaid ehangach. Ar y cam nesaf hwn, gwahoddwn ystod eang o adborth fel y gall yr ymarferwyr a wnaeth ei ddatblygu fireinio'r cwricwlwm newydd ymhellach. Dyma'r cyfle i chi a'ch cydweithwyr ddweud eich dweud.

Caiff digwyddiadau eu cynnal gyda'r Consortia, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod Mai a Mehefin. Gallwch gael y dyddiadau oddi wrth eich consortiwm lleol. Hefyd, bydd yna becyn ichi ei ddefnyddio yn eich digwyddiadau. Bydd hwnnw ar gael tua canol mis Mai.

Mae'r cydweithio yma'n enghraifft wych o'r hyn a olygir gan genhadaeth ein cenedl: hynny yw, gweithio gyda'n gilydd er budd Cymru. I gael gafael ar y deunyddiau a gyhoeddwyd, ac i roi adborth, ewch i: <https://hwb.llyw.cymru/>

Yn gywir

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

